**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 17 Medi, 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** D Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Dewi Jones, Dafydd Hughes a Colin Jones. Ymddiheuriad gan Aled Roberts

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 30 Gorffennaf fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – gan na ddaeth cynrychiolydd o Gyngor Sir Conwy i'r cyfarfod, penderfynwyd ei wahodd eto a threfnu pwyllgor arbennig cyn gynted â phosib.

**Materion Ffyrdd** – Tynnu sylw at broblemau ar allt Tŷ Coch (ffordd Yr Wybrnant) a hefyd ffordd Hafod-y-rhedwydd a'r clerc i drefnu cyfarfod efo'r Cyngor Sir.

**Maes parcio ger yr Hen Ysgol** – dim ymateb gan Ymddiriedolaethwyr y Neuadd Goffa.

**Cwt Hers** – cadarnhawyd bod hysbyseb yn ymddangos yn *Yr Odyn*, gyda cheisiadau i'w danfon at y clerc.

**Mynwent yr Eglwys** – penderfynwyd bod angen tocio a thorri mwy o goed.

**Amserlen Bysiau** – penderfynwyd pwyso ar y Cyngor Sir a'r darparwyr gwasanaethau i drafod newidiadau ymlaen llaw efo'r Cyngor Cymuned.

***Manchester House*** – oherwydd pryderon am ddirywiad pellach yng nghyflwr yr adeilad, penderfynwyd cysylltu â'r perchennog.

***Go Below*** – er gwybodaeth, dywedodd y cadeirydd bod rheolau newydd ynglŷn â chario pobl i ymweld â'r atyniad hwn a allai olygu y bydd y cwmni'n cyflwyno cais cynllunio am le parcio yng Nghwm Penmachno a bod pryder yn Cwm y gallai hynny achosi cynnydd yn nifer y cerbydau drwy'r pentref.

**Gwariant Ariannol** – Cymeradwyd talu £59.88 i gwmni Cyfrifiaduron Cennin am gynnal a chadw'r wefan